Nodiadau o drafodaeth Grŵp 1

Dechrau'r drafodaeth drwy nodi bod y 73 cam allweddol yn y Cynllun Gweithredu gyda dyddiadau, yn ddechrau da a holwyd sut bydd y cyfan yn gweithio o fewn y strategaeth hybu.
Angen bod mwy clir yn y ddogfen sut mae'n mynd i gyrraedd y nod.
'Y Gymraeg yn Sir Gâr' yw'r ddogfen sy'n gosod cyfeiriad a ffocws a'r strategaeth ar gyfer hyrwyddo – mae angen marchnata a chynlluniau hybu manwl.
Angen i'r gymuned i deimlo bod y strategaeth yn berthnasol ac wrth godi o'r gymuned bod y strategaeth yn cynnwys yr hyn mae'r gymuned yn ei ewyllysio.
Angen ymateb i sefyllfa allfudo a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Holwyd ble mae'r argymhellion yn cael eu cyflawni a phwy sy'n atebol i beth/ble mae'r mecanwaith i symud pethe mlân?
Ymateb Cefin Campbell: Gyda Gweithgor y Cyfrifiad heblawm am Addysg Gymraeg a'r Fforwm y Gymraeg mewn Addysg yn gyfrifol am y ffocws Cymraeg mewn Addysg.
Fforwm Iaith yn ffocysu ar elfennau arbennig ac yn fwy fel pwyllgor craffu ac sydd yn galw pobl fewn dros y misoedd nesaf – Cynllunio wythnos nesa; Alun Davies; Iechyd; Cymraeg i Oedolion.
Mae angen 'road map' ac amserlen mwy tynn ar gyfer amserlenni a chynllunio'r strategaeth hybu er mwyn gwybod i ble rydym yn anelu ato.
Y gofid bod y Cyngor wedi gosod egwyddorion radical a blaengar a bod nawr angen roi amserlen a thargedau ar waith.
Nodwyd bod y broses o newid statws iaith ysgol yn cymerid 1.5-2 flynedd a bod hyn yn dal pethe nôl wedyn.
Gofid bod Cynllun Twf wedi dod i ben ond bod Cynllun Cymraeg i Blant yn cael ei weithredu yn Llanelli a Dyffryn Aman rhai yn poeni nad oedd darpariaeth yn ardal Hendy-gwyn/San Clêr ond yn ôl Cefin Campbell hyn yn arwydd da bod y ddarpariaeth yn dda eisoes yn yr ardaloedd yma.
Angen i Weithgor y Cyfrifiad lunio strategaeth iaith i'r Cyngor Sir ei hun – y Gweithgor i'w sefydlu a'r Fforwm Iaith i graffu. Angen i'r Cyngor Sir ei hun i ddangos arweiniad drwy ddatblygu'r strategaeth iaith ei hunain.

Trafodwyd tipyn am Ysgol Llangennach a'r oblygiadau os byddai'r rhieni yn mynd i dribiwnlys i herio prosesau'r Cyngor Sir

Nodwyd pryderon bod rhieni sy'n aros yn eu cymunedau ddim yn hyderus i siarad a phroblemau i gael pobl sy'n gwethio mewn cartrefi hen bobl i fedru'r iaith. Nodwyd canmoliaeth i naws ieithyddol Maes Llywelyn – cartre'r henoed yng Nghastell Newydd Emlyn.

Nodwyd pryder am enwau lleoedd cynhenid Cymraeg yn cael eu trosi i'r Saesneg.

Nodwyd fod pob ysgol yn Sir Gâr ar y contiwwm tuag at fod yn ysgolion Cymraeg a bod cynllun i wireddu hynny; a nodwyd bod Bro Myrddin wedi codi i gategori 1 ac yn arwain y ffordd.

Nodwyd pryder bod enwi ysgol yn 'Gymraeg' ddim yn golygu o reidrwydd bod y plant yn gymdeithasol yn siarad Cymraeg â'i gilydd. Mae plant yn siarad Saesneg gyda'i gilydd yn gymdeithasol yn yr ysgol a yn broblem ar draws Cymru.

Nodiadau Grŵp 2
Dylid gwahaniaethu rhwng amddiffyn a hyrwyddo'r iaith. Enghraifft o rywbeth sy'n amddiffyn y Gymraeg yw'r safonau iaith, tra mai un o brif amcanion hyrwyddo'r iaith yw cymathu pobl. Rhaid hyrwyddo'n egnïol i argyhoeddi mewnfudwyr a phobl leol o fanteision addysg Gymraeg, ac mae'n bwysig dechrau'r broses cyn gynted â phosib, h.y. yn y cylchoedd meithrin. Pwysleisiodd sawl aelod o'r grŵp pa mor mor bwysig yw canolfannau trochi.

Hyrwyddo - mae rhannu gwybodaeth yn y gymuned yn hanfodol - dechrau ar lawr gwlad i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o fanteision addysg Gymraeg. Dylid manteisio hefyd ar bobl â dylanwad, e.e. penaethiaid ysgolion. Iaith gwaith yn ogystal â iaith addysg - dyna'r neges.

Mae'n anodd iawn i siaradwyr Saesneg ddeall y broses o ddysgu iaith, ac mae termau'r byd addysg yn drysu - Categori A, 1 A, "ysgol ddwyieithog" - termau sy'n amrywio o un ardal i'r llall.

Cytunwyd mai mewnfudo yw craidd y broblem - 29% gafodd eu geni tu allan i'r wlad, ac mae canran uchel yn meddwl mai symud o fewn yr un wlad maen nhw, heb sylweddoli bod gan Gymru iaith a diwylliant gwahanol.

Canolbwyntiodd y grŵp ar addysg i rannau helaeth, ond codwyd ambell i bwynt arall, e.e.:

Aldi - enghraifft dda o fusnes sy'n defnyddio'r Gymraeg
Y 'Bunt Gymraeg' - trwy ddefnyddio busnesau Cymraeg a mynnu ar wasanaeth Cymraeg mae gan siaradwyr Cymraeg y gallu i ddylanwadu pob math o fusnesau.

Nodiadau Grŵp 3:

- Mapio – angen mapio'r cynllun dim jysd nodi be sy'n digwydd
- Angen mapio adnoddau (ac adnoddau dynol) – targedu'r adnoddau i'r ardaloedd cywir – teilwra gweithredu
- Dim angen mapio gweithgareddau – mentrau iaith yn gwneud
- Cyngor yn dweud: angen mapio gweithgareddau i wybod ble i ddechrau
- Gweithredu sy'n bwysig – ar fyrder
- Sut i dargedu pentref sy'n cael ei effeithio gan fewnfudo o Loegr?
- Bron yr un faint o fewnfudo o Loegr â chwymp siaradwyr Cymraeg (yn Sir Gâr)
- Cyngor yn dweud: allfudo yn fwy o broblem na mewnfudo
- Angen i'r Cyngor gydnabod effaith mewnfudo o Loegr
- Angen i'r Cyngor benderfynu faint o dai i adeiladu, nid y Llywodraeth
- Mewnfudo yn niweidio cymunedau = effeithio ar ddefnydd y Gymraeg, anoddach cael cyfle i'w defnyddio
- Unrhyw ymchwil yn cael ei wneud i pwy sy'n symud mewn (o ble? Teuluoedd? Oed?) Ateb Cyngor – na, dibynnu ar y cyfrifiad
- Iawn i bobl symud mewn ond angen iddynt ymdreiddio i'r gymuned a dysgu'r Gymraeg
- Normaleiddio'r Gymraeg
- (swyddog o Mentrau Iaith) Dim digon o adnoddau a swyddogion gan y Mentrau Iaith i wneud popeth sydd angen, ond gwybod yn union ble mae'r bylchau a beth sydd angen neud
- Strategaeth heb amserlen nac arian yn ddi-werth
- Clwb Jiwdo yn digwydd yn Gymraeg yn hollol naturiol achos gwybod fod pob plentyn yn gallu siarad Cymraeg – pob ysgol gynradd yn yr ardal yn ysgolion Cymraeg
- Angen denu mwy o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg (hamdden)
- Angen annog pobl i ddysgu Cymraeg
- Angen i'r Canolfannau Cymraeg fynd allan i'r gymuned
- Addysg – angen targedu'r plant o oed ifanc
- Cynllun trochi
- Dal dim ateb wrth y Cyngor am amserlen
- Creu ardaloedd peilot fyddai'n cael eu penodi'n ardal Gymraeg – mae hyn yn syniad fyddai angen ei ddatblygu.